# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Penny Matthews | Adran Etholiadol: | Llansamlet |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd rheolaidd ynghyd â'm cydweithwyr ward yng Nghanolfannau Cymunedol Gellifedw a'r Trallwn.

Ymunais â chydweithwyr ward ar amrywiaeth o faterion lleol wrth ymgyrchu am chwarae teg yn Safle Emily pan oedd llifogydd ar y safle, cyfarfod â'r datblygwr wrth sicrhau ei fod yn deall effaith eu gweithredoedd. Euthum i gyfarfod â phreswylwyr i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ym Midland Place a chyflwynodd swyddogion fesurau a gaiff eu monitro am 3 mis.

Roeddwn yn rheolaidd yn diweddaru'r dudalen Facebook a ddechreuais o'r enw “Llansamlet Labour News”. Rwy'n gweld bod pobl yn postio'n fwyfwy ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol am faterion yr wy'n mynd i'r afael â hwy ac yn gallu dod o hyd i atebion ar eu cyfer.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 3 / 7 | 43% |
| Y Cyngor | 13 / 17 | 76% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Cynghori’r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 4 / 7 | 57% |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 16 / 16 | 100% |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 2 / 2 | 100% |
| Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol | 1 / 1 | 100% |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 5 / 5 | 100% |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 10 / 10 | 100% |
| CYFFREDINOL | 61 / 72 | 85% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 2 / 7 | 29% |
| CYFFREDINOL | 2 / 7 | 29% |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Roeddwn yn rheolaidd yn mynd i gyfarfodydd llywodraethwyr yn Ysgolion y Trallwn a Gellifedw.

Euthum i gyfarfodydd â Persimmon ynglŷn â Safle Emily.
Hefyd, euthum i gyfarfod cyhoeddus ynglŷn â Midland Place a thipio anghyfreithlon.
Roeddwn bob amser yn mynd i gyfarfodydd ward.
Ymdriniais â nifer o achosion personol o natur sensitif.
Roeddwn bob amser yn ymdrin â materion cyn gynted ag y bo modd, gan ymweld â phreswylwyr yn eu cartrefi'n aml.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgor Trwyddedu.
Euthum i gyfarfodydd PACT yn y Trallwn a Gellifedw.
Cefnogais breswylwyr gydag amrywiaeth o faterion o finiau baw cŵn i gefnogi preswylwyr anabl sy'n cael trafferth defnyddio palmentydd.

Rwyf wedi ymdrin â nifer o achosion personol sensitif.
Cefnogais breswylwyr wrth gadw'r amgylchedd yn lân ac yn daclus.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

06/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
23/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl y rheolwr data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Am y ddwy flynedd ddiwethaf, roeddwn yn arwain ar drefnu Parti ym Mharc Briallu. Roeddwn yn trefnu ac yn cyd-drafod ar gyfer y cyfarpar, yn cysylltu â Chymunedau'n Gyntaf a sicrhau Asda fel ein noddwyr ddwywaith. Y llynedd, yn ogystal â'r castell neidio a'r atyniadau arferol, roeddem yn ffodus iawn i'n Grŵp Dawnsio Gwyddelig lleol roi arddangosiad anhygoel a oedd yn ein cyfareddu ni i gyd. Hefyd, cawsom ymweliad gan Minnie Mouse a Micky Mouse, a oedd yng nghwmni Peppa Pinc. Roedd gemau i bobl o bob oedran ac roedd troellwr yn darparu cerddoriaeth gefndir. Talodd dyn busnes lleol am hyn.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 04.06.15 |